

Bagloriaeth Cymru -



Tystysgrif Her Sgiliau



Ym mlwyddyn 10 ac 11, byddwch yn cwblhau'r Tystysgrif Her Sgiliau. Mae'r Tystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys 4 Her wahanol sy'n canolbwyntio ar wahanol sgiliau.

Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

Yn yr **Her Dinasyddiaeth Fyd-eang**, byddwch yn ymchwilio i destun sy'n cael effaith ar y byd e.e. cynhesu byd-eang. Byddwch yn dysgu am y testun, yn ymchwilio i'r testun ac ystyried sut mae datrys y broblem fyd-eang. Mae'r Her hon yn cyfrif am 15% o'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Beth fydda i'n gwneud yn ystod yr Her?

1. Darllen ffynonellau, cymryd gwybodaeth o'r ffynonellau.
2. Ystyried ffactorau DACTEG – Deddfwriaethol, Amgylcheddol, Cymdeithasol, Technolegol, Economaidd a Gwleidyddol (PESTLE).
3. Ysgrifennu safbwynt personol (800 gair).
4. Pecyn codi ymwybyddiaeth (*raise awareness*).



Her y Gymuned

Yn **Her y Gymuned**, byddwch yn canolbwyntio ar bryderon ac anghenion go iawn drwy gynllunio a gwneud gweithgareddau sy'n anelu at wneud gwahaniaeth yn y gymuned. Mae'r Her hon yn cyfrif am 15% o'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Beth fydda i'n gwneud yn ystod yr Her?

1. Cynllunio eich gweithgaredd ar gyfer y gymuned.
2. Cwblhau 10 awr o waith cymunedol – gyda'r bwriad o wella rhan o'r gymuned.
3. Myfyrio ar y broses.

*Cewch weithio'n unigol neu mewn grŵp o 3-6 person.



Her Menter a Chyflogadwyedd

Yn yr **Her Menter a Chyflogadwyedd** byddwch yn gweithio ar friff ar gyfer cynulleidfa benodol. Bydd angen i chi gynllunio cynnyrch addas gan ystyried gwahanol ffactorau. Mae'r Her hon yn cyfrif am 20% o'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Beth fydda i'n gwneud yn ystod yr Her?

1. Meddwl am gynnyrch a datblygu'r cynnyrch.
2. Gwneud dadansoddiadau SWOT, cynnal cyfarfodydd yn eich grwpiau.
3. Ystyried y '5P' – Cynnyrch, Pris, Lleoliad, Pobl, Hyrwyddo (*Product, Price, Place, People, Promotion*)
4. Cyflwyno'r cynnyrch i banel.
4. Myfyrio ar y broses.

*Gweithio mewn grŵp o 3-6 person.



Project Unigol

Y **Project Unigol** yw traethawd o 1000 i 2000 o eiriau ar destun o'ch dewis chi. Bydd yn rhaid i chi i feddwl am nodau ac amcanion, eich dulliau ymchwil, creu holiadur a chasglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau i ateb eich cwestiwn. Byddwch yn gwneud y Project ym mlwyddyn 11. Mae'r Her hon yn cyfrif am 50% o'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Beth fydda i'n gwneud yn ystod yr Her?

1. Gosod cwestiwn fel teitl i'r gwaith.
2. Gosod nodau ac amcanion.
3. Cwblhau'r nodau ac amcanion drwy gwblhau holiadur a darganfod gwybodaeth o wahanol fathau o ffynonellau.
4. Dod i benderfyniad ac ateb y cwestiwn.
5. Gwerthuso eich gwaith.

*Y Project Unigol i'w wneud ym mlwyddyn 11.

